Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Gwasanaeth Cynghori ar Feichiogrwydd (BPAS), Caerdydd

## Dyddiad yr arolygiad: 28 Mawrth 2023

## Dyddiad cyhoeddi: 28 Mehefin 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-83504-240-3
© Hawlfraint y Goron 2023

Nodwyd gennym fod pob aelod o'r staff yn BPAS Caerdydd yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion. Nododd pob claf a oedd wedi cwblhau holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y clinig yn dda iawn.

Roedd y lefelau staffio yn briodol i gynnal diogelwch y cleifion yn y clinig ar adeg ein harolygiad. Rhoddodd mwyafrif y staff a gwblhaodd holiadur adborth cadarnhaol ar weithio yn yr ysbyty.

Roedd prosesau perthnasol ar waith i reoli ac adolygu risgiau er mwyn helpu i amddiffyn iechyd a diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr yn y clinig.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Wasanaeth Cynghori ar Feichiogrwydd (BPAS), Caerdydd ar 28 Mawrth 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, a arweiniodd yr arolygiad, un adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd y staff yn sensitif a thosturiol wrth siarad â chleifion a oedd yn helpu i greu amgylchedd gofal digynnwrf. Gallai'r cleifion roi adborth ar eu profiadau i'r clinig mewn sawl ffordd. Rhoddwyd digon o wybodaeth i'r cleifion cyn eu triniaethau ac ar eu hôl.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Byddai ramp cludadwy yn gwella hygyrchedd yr adeilad ar gyfer cleifion â phroblemau symudedd
- Dylai'r gwasanaeth ddangos canlyniadau adborth gan gleifion yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion eu darllen.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd cydsyniad priodol yn cael ei gasglu gan bob claf, gan gynnwys y rhai a oedd o dan 18, cyn darparu triniaeth.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

*"Roedd pob aelod o'r staff yn gyfeillgar ac roeddent yn garedig iawn wrth edrych ar fy ôl. Roedd yr awyrgylch yn hyfryd a gwnaeth fy helpu i ymlacio."*

*"Staff hyfryd iawn. Roeddent yn sylwgar a gwnaethant fy nhrin â gofal. Roeddwn yn teimlo fy mod yn cael fy mharchu ac roeddent yn rhoi tawelwch meddwl i mi drwy gydol fy amser yno."*

*"Roedd y staff yn dosturiol ac yn deall a gwnaethant i mi deimlo'n gyfforddus drwy gydol fy nhriniaeth."*

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd yn amlwg bod mesurau rheoli ac atal heintiau priodol ar waith, ac roedd y clinig i'w weld yn lân ac yn daclus. Roedd gweithdrefnau cadarn ar gael er mwyn helpu i sicrhau bod y staff yn diogelu'r cleifion yn briodol, a oedd yn bwysig iawn oherwydd natur y gwasanaethau a gynigir yn y clinig. Gwelsom fod y feddyginiaeth yn cael ei rheoli, ei rhoi a'i storio'n ddiogel.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd cofnodion y cleifion a adolygwyd gennym yn cael eu cynnal i safon dda iawn ac roeddent yn helpu i ddangos tystiolaeth bod gofal o safon dda yn cael ei ddarparu i gleifion.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd prosesau addas ar waith i uwch-aelodau o'r staff fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol ac i sicrhau bod lefelau cydymffurfiaeth cyffredinol yn uchel. Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r clinig o ddydd i ddydd a gwelsom fod yr unigolyn hwnnw yn ymrwymedig iawn i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion. Roedd aelodau o staff yn cael eu recriwtio mewn proses agored a theg ac roedd gwiriadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogaeth.

Gwnaeth aelodau o'r staff y sylwadau canlynol:

*"Mae hyfforddiant bob amser ar gael ac rydym yn cael ein hannog i gwblhau cyrsiau ychwanegol."*

Gwnaethom ofyn i'r staff yn yr holiaduron os byddai unrhyw hyfforddiant arall yn ddefnyddiol ar gyfer eu rolau. Cafwyd yr ymatebion canlynol:

*"Hyfforddiant ar reoli gwrthdaro, er mwyn ymdrin ag ymddygiad ymosodol cleifion."*

*"Llwybr hyfforddiant safonedig ar gyfer y cynorthwyydd gofal iechyd."*

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r gwasanaeth gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r gwasanaeth gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i wasanaethau ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

